



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Astudiaeth Achos buddion System Rheoli Llyfrgell ar y cyd WHELF: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae'r astudiaeth achos hon yn un o dair a gwblhawyd gan Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru (WHELF) fel astudiaeth ansoddol gyflenwol i'r adroddiad ar fuddion gan Cambridge Econometrics a noddwyd gan Jisc.

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon wedi nodi sawl budd sy'n deillio o brosiect System Rheoli Llyfrgell WHELF.

Thema allweddol yw fod y prif fuddion wedi dod drwy gydweithio â chydweithwyr yn WHELF, gyda buddion eilaidd yn dod i ganlyn gwelliannau yn y feddalwedd.

Ymhlith y buddion allweddol a nodwyd gan y Brifysgol, mae:

- Gwella'r broses dendro – gwell manyleb a gwerthuso a llai o faich gwaith – drwy rannu gwaith ar draws sefydliadau WHELF
- Proses weithredu lyfn a di-dor wedi ei galluogi drwy weithio gyda a dysgu gan gydweithwyr ar draws WHELF
- Cyfleoedd dysgu parhaus drwy ymgysylltu ag arbenigwyr ar draws WHELF, gan ddarparu hyfforddiant a gwasanaethau cyfoethocach a mwy trylwyr
- Darparu gwasanaeth mwy unedig a chyson o ganlyniad i symud o systemau lluosog a etifeddwyd i un system
- Darparu gwasanaeth mwy cadarn gyda gostyngiad ar y galw TG lleol o ganlyniad i symud at ddatrysiad wedi ei letya yn y cwmwl
- Mwy o botensial i ehangu gwasanaethau System Rheoli Llyfrgell drwy ymarferoldeb ychwanegol nad yw ar gael mewn systemau a etifeddwyd
- Gwell integreiddio gyda systemau busnes eraill y Brifysgol

Cefndir

Ffurfiwyd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (y Drindod Dewi Sant) yn 2010 drwy uno Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin, a'r uno dilynol gyda Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn 2013.

Lleolir prif gampysau'r Brifysgol yn Abertawe a'r cyffiniau yn ogystal ag yn nhrefi gwledig Llanbedr Pont Steffan a Chaerfyrddin yn ne orllewin Cymru. Mae gan y Brifysgol tua 8,000 o fyfyrwyr cyfwerth â llawn amser.

Mae gan Lyfrgell ac Adnoddau Dysgu y Drindod Dewi Sant saith llyfrgell gampws yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Abertawe a Llundain, sy'n cynnwys casgliad o dros 500,000 o gyfrolau argraffedig ac sy'n darparu mynediad at tua 20,000 o lyfrau electronig a 50,000 o gylchgronau electronig.

Cyn gweithredu Alma ac Primo fel rhan o WHELP, roedd y Brifysgol yn defnyddio nifer o systemau etifeddiaeth: System rheoli llyfrgell SirsiDynix Horizon a system darganfod adnoddau lleol OCLC WorldCat yng Nghaerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan a system rheoli llyfrgell Capita Alto a Serials Solutions Summon i ddarganfod adnoddau yn Abertawe.

Buddion bod yn rhan o gonsortiw

Manteisio i'r eithaf ar bŵer prynu sefydliad bach i gaffael system uwchraddol

Fe wnaeth caffael system rheoli llyfrgell fel rhan o gonsortiw alluogi'r Brifysgol i ddewis a gweithredu system safon uchel a fyddai wedi bod yn anfforddiadwy heb y disgownt cyflenwr a gynigwyd i WHELP.

Roedd y system hon yn gwella capasiti gweithredol y gwasanaeth llyfrgell. Er enghraifft, o dan y systemau a etifeddodd y Brifysgol roedd ceisiadau am rannu adnoddau yn cael eu trin â llaw oherwydd cyfyngiadau ar yr ymarferoldeb oedd ar gael. Ar ôl gweithredu'r system newydd, mae monitro benthyciadau i mewn ac allan rhwng llyfrgelloedd yn cael ei gynnal drwy gyfrwng Alma, gan leihau dibyniaeth ar daenlenni allanol.

Mae rhannu system ar draws WHELP hefyd yn agor cyfleoedd i ddatblygu rhannu adnoddau ar draws addysg uwch yng Nghymru.

Amlygodd y gwasanaeth llyfrgell hefyd ymarferoldeb gwell o ran rheoli adnoddau electronig, e.e. metadata'r Parth Cymunedol a ffrydiau gwaith penodol ar gyfer cynnwys ar-lein, ond teimlai staff nad oedd hyn wedi cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial eto oherwydd cyfyngiadau o ran gallu staff i archwilio'r ymarferoldeb newydd hwn, gan ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau parhad busnes yn dilyn mudo.

Lleihau risg drwy rannu gwybodaeth ar y cam gweithredu

Pwysleisiodd staff ar sawl campws yn y Brifysgol pa mor ddiraferth oedd Alma a Primo wedi cael eu gweithredu, gyda myfyrwyr yn adrodd nad oeddent wedi sylwi ar unrhyw darfu ar wasanaethau a bod pontio di-dor wedi bod i'r system newydd.

Roedd hyn yn ganlyniad, yn rhannol, y broses mudo WHELP dros gyfnod o amser, gyda'r Drindod Dewi Sant yn yr ail garfan ac yn gallu elwa ar brofiad y grŵp cyntaf o sefydliadau. Er enghraifft, cafodd y Drindod Dewi Sant ddau brawf llwytho data mudo cyn mynd yn fyw, gan ddysgu o brofiad gweithredu Prifysgol De Cymru, a oedd hefyd wedi mudo o ddwy system ac a oedd wedi adrodd am broblemau gyda phrawf llwytho data unigol.

Gwellwyd y profiad diwrnod mynd yn fyw hefyd drwy fod yn rhan o rwydwaith ehangach o gyd-aelodau. Er enghraifft, roedd y rheolwr prosiect o Brifysgol Abertawe, un a fabwysiadodd y system yn gynnar, ar y safle drwy gydol y diwrnod lansio i helpu i ddatrys ymholiadau.

Elwa ar adnodd consortiw pwrpasol

Mantais ychwanegol a nodwyd yn ystod grŵp ffocws y staff uwch oedd darparu

rheolwr rhaglen pwrpasol, annibynnol WHELF i gefnogi'r prosiect, a oedd yn gallu cysylltu gyda'r cyflenwr i ddatrys materion cytundebol a gweithredu'n ddiuedd i hyrwyddo buddiannau'r consortiwm ar sail gyfartal.

Roedd y Drindod Dewi Sant ar ei hennill diolch i'r broses gaffael ar y cyd, hefyd, a gafodd ei thrin ar ran WHELF gan Brifysgol Caerdydd, gan alluogi i'r gwasanaeth llyfrgell yrru'r prosiect sefydliadol ac arbed amser a chostau staff i wasanaethau proffesiynol eraill, fel Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a Systemau.

Datblygu manyleb gofynion mwy cynhwysfawr

Fel sefydliad a oedd wedi uno yn ddiweddar, gydag adnoddau staff cyfyngedig, byddai cynnal proses dendro annibynnol wedi bod yn anodd ac yn feichus. O ganlyniad, roedd rhannu gwaith ar y fanyleb tendro a'r ymarfer gwerthuso o fudd penodol i'r Brifysgol. Drwy gydweithio â chydweithwyr o sefydliadau mwy o faint, roedd y Brifysgol ar ei hennill yn uniongyrchol diolch i brofiad cydweithwyr gyda gwybodaeth arbenigol i greu manyleb manylach a chynnal gwerthusiad mwy trylwyr ac effeithiol o'r atebion ar y rhestr fer i sicrhau bod y system a ddewiswyd yn bodloni anghenion y gwasanaeth.

Un enghraifft a amlygwyd gan y staff yw'r cynnydd yn y gallu i reoli adnoddau'n electronig a dadansoddi gwybodaeth mewn sefydliadau eraill a fu o gymorth i'r consortiwm, a'r Drindod Dewi Sant yn sgil hynny, wrth ddewis cynnyrch wedi ei deilwra ar gyfer gofynion y llyfrgell yn y dyfodol.

Gwell hyfforddiant a datblygu staff

Roedd y cydweithio yn gyfle ar gyfer hyfforddiant ychwanegol na fyddai wedi bod ar gael i'r Drindod Dewi Sant fel rhan o broses weithredu annibynnol. Er enghraifft, gwahoddwyd y Drindod Dewi Sant i hyfforddiant ar gyfer staff Prifysgol Abertawe yn ystod carfan 1, ac felly cafwyd lefel uwch o wybodaeth am y cyfnodau allweddol a'r targedau cyn cychwyn gweithredu yn y Brifysgol ei hunan. Yn ogystal, roedd modd i'r Brifysgol elwa ar rannu gweithdai wedi eu hwyluso gan gyflenwyr gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, gyda'r atebion i nifer o ymholiadau a godwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn uniongyrchol berthnasol i'r Drindod Dewi Sant.

Nododd rhai cyd-Aelodau, fodd bynnag, bod llai o amser wedi ei neilltuo i bob sefydliad unigol, o bosibl, o ganlyniad i'r gweithredu ar y cyd, ac roedd teimlad fod rhai sesiynau hyfforddi wedi cael eu "rhuthro", ac na roddwyd digon o amser i ymdrin ag ymholiadau gan bob llyfrgell unigol o bosibl. Roedd staff hefyd yn teimlo y byddai rhagor o hyfforddiant personol wedi bod yn werthfawr, a bod natur ddaearyddol wasgaredig campysau'r Drindod Dewi Sant yn rhwystr i ragor o gyfranogiad yn nigwyddiadau hyfforddiant Ex Libris a WHELF.

Rhannu arbenigedd a gwybodaeth

Yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol Ex Libris, roedd modd i'r Drindod Dewi Sant gymryd rhan mewn 'Cyfarfodydd bychan' anffurfiol WHELF i drafod cynnydd, materion a rhannu profiadau. Roedd y 'cyfarfodydd bychan' hyn yn cynnwys cyfarfodydd ar y

safle gyda sefydliadau a oedd wedi rhoi'r system ar waith yn barod.

Roedd y cyfarfodydd hyn o werth arbennig cyn ac yn ystod y gwaith o ddechrau'r broses weithredu. Er enghraifft, roedd gwybodaeth a gafwyd o Brifysgol Abertawe am y broses gaffael o fewn Alma o gymorth i staff y Drindod Dewi Sant wrth sefydlu'r broses yn fwy effeithiol, ac fe wnaeth adborth gan Brifysgol De Cymru am eu profiad o fudo data eu galluogi i osgoi gwallau posibl wrth drosglwyddo dirwyon.

Gwelwyd bod rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr WHELF ac Ex Libris drwy Basecamp, ac o fewn WHELF drwy Microsoft Yammer, hefyd o werth i'r prosiect ei hun, a'i fod wedi galluogi staff i ddatblygu cydberthnasau newydd ar draws WHELF ac i gydweithredu'n fwy effeithiol.

Ar raddfa ehangach, teimlwyd bod natur ac ethos prosiect system rheoli llyfrgell WHELF yn ei gyfarwydd wedi helpu i ddod â staff llyfrgelloedd ledled Cymru at ei gilydd, adeiladu rhwydweithiau a galluogi rhannu arbenigedd. Mae sylfeini cadarn ar gyfer rhannu a chydweithio wedi bod ar waith yn barod yn llyfrgelloedd addysg uwch Cymru, a gwelwyd bod y rhain yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

Gwella proffil y gwasanaeth llyfrgell

Gwelwyd bod y prosiect wedi bod yn fuddiol hefyd o ran tynnu sylw at y newid yn rôl y Llyfrgell o fewn y Brifysgol, ac arbenigedd ymhlith staff y Llyfrgell fel gweithwyr proffesiynol gwybodaeth. Mae gweithio ar y prosiect ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth mewnol mewn cydweithrediad â WHELF ac Ex Libris wedi helpu i godi proffil y Llyfrgell, yn arbennig yng ngolwg unedau cymorth proffesiynol eraill sydd wedi ennill dealltwriaeth well o'r gwasanaeth Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu a ddarperir ar hyn o bryd.

Gwasanaeth o ansawdd uwch drwy defnyddio System Rheoli Llyfrgell cenhedlaeth nesaf

Integreiddio'n well gyda systemau busnes eraill allweddol y Brifysgol

Yn dilyn gweithredu, nododd staff y Llyfrgell ostyngiad yn nifer y problemau sy'n gysylltiedig â chyfrifon anghywir myfyrwyr o ganlyniad i integreiddio gwell gyda Systemau Cofnodion Myfyrwyr y Brifysgol, yn arbennig y cynnydd yn amllder diweddariadau ac adroddiadau mwy cynhwysfawr am wallau.

Ar hyn o bryd, mae'r Drindod Dewi Sant yn dal i redeg Systemau Cofnodion Myfyrwyr lluosog yn dilyn yr uno, ac felly nid yw wedi gallu manteisio ar ymarferoldeb y diweddariad amser real; y gobaith yw y gellir gwneud gwelliannau pellach gyda'r integreiddio hwn unwaith y bydd y Brifysgol yn symud i un System Cofnodion Myfyrwyr ym mis Awst 2017.

Hyblygrwydd systemau ar y we ac ar borwr

Canfuwyd bod mynediad at y system rheoli llyfrgell lawn drwy borwr heb orfod gosod meddalwedd ychwanegol na gofynion rhwydwaith yn fuddiol ar unwaith. Ar adeg cynnal y grwpiau ffocws ym mis Rhagfyr 2016, roedd staff wedi gwneud defnydd o

system rheoli llyfrgell Alma ar iPad yn barod, a theimlwyd bod hyn yn galluogi rhagor o hyblygrwydd mewn nifer o feysydd. Roedd Llyfrgellwyr Pwnc yn awyddus i ddefnyddio'r rhyngwyneb ar y we i ddarparu gwasanaethau y tu allan i adeiladau Llyfrgelloedd, gan gynorthwyo rhaglen 'Llyfrgellydd Symudol' y Brifysgol. Mae staff y llyfrgell sy'n ymwneud â Rheoli Casgliadau wedi defnyddio Alma ar ddyfeisiau cludadwy wrth ddad-ddewis a throsglwyddo stoc, gan leihau dibyniaeth ar adroddiadau argraffedig a chaniatáu ar gyfer gwell data amser real. Teimlwyd hefyd y gallai hyn o bosibl arwain at leihau swm y papur a ddefnyddir gan y Llyfrgell, ac felly helpu i fodloni targedau cynaliadwyedd.

Nodwyd gwelliannau o ran dibynadwyedd y system ar ôl symud i wasanaeth wedi ei letya yn y cwmwl, yn enwedig mewn perthynas â hysbysiadau e-bost, a fu eisoes yn bwynt trafod yn dilyn newidiadau i weinydd e-bost y Brifysgol a'r mur cadarn ar draws campysau.

Mynediad gwell

Un budd annisgwyl a welwyd gan staff yn dilyn gweithredu fu sicrhau dilyniant yn y profiad i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n cofrestru yn y Drindod Dewi Sant yn dilyn astudiaeth israddedig mewn sefydliad WHELF arall; er enghraifft, roedd grŵp o fyfyrwyr TAR a gofrestrodd yn ystod tymor yr hydref 2016 yn falch o weld bod catalog y Llyfrgell a'r gwasanaethau darganfod yn defnyddio Primo, system yr oeddent yn gyfarwydd â hi yn ystod eu rhaglen israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fel y dywedodd un Llyfrgellydd Pwnc, 'roeddent yn gwenu ac yn hapus, yn teimlo'n hollol gartrefol gyda'r system.'

Integreiddio gwell rhwng casgliadau argraffedig ac adnoddau electronig

Er y nodwyd bod gwella integreiddio cynnwys print ac electronig yn fudd posibl, roedd staff y Llyfrgell yn teimlo nad oedd gwelliannau o'r fath wedi cael eu gwireddu eto. Fe allai hyn fod oherwydd dyblygu data a ymfudwyd o systemau ar wahân a etifeddwyd, a'r safoni gwael sy'n deillio o brosesau gwahanol cyn yr uno. Teimlwyd y gellid integreiddio'n well yn dilyn rhagor o waith glanhau data, cyflwyno safonau traws-campws ar ôl ailstrwythuro a thrwy brosiect catalogio system rheoli llyfrgell WHELF, a phan fydd staff wedi cael amser i ymglyfarwyddo ag ymarferoldeb ERM Alma.

Dadansoddeg well yn gyrru gwasanaethau gwell

Mae hwylustod mynediad at Ddadansoddeg a'r gallu i ychwanegu adroddiadau at ddangosfyrddau Alma ar gyfer staff wedi bod yn werthfawr ac wedi galluogi'r Llyfrgell i gyflwyno ffrydiau gwaith mwy effeithlon ar gyfer rheoli casgliadau. Yn benodol, mae dangosfyrddau wedi cael eu creu i helpu i nodi stoc i'w dynnu'n ôl, olrhain eitemau coll, a monitro camau a gymerir gan staff i ddatrys ymholiadau dirwyon myfyrwyr, gan helpu i sicrhau dull mwy cyson a gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid; yn flaenorol, roedd gofyn cynhyrchu llawer o'r adroddiadau hyn â llaw gan staff technegol drwy ddefnyddio sgrriptio SQL. Cyfeiriwyd at y pecyn Dadansoddeg a gynigir drwy Alma a Primo yn holl grwpiau ffocws y staff, ac roedd y staff o'r farn mai dyma un o brif welliannau'r feddalwedd ar y ddarpariaeth flaenorol.

Gwelwyd bod y metrigau gwell a gynigir gan y pecyn Dadansoddeg hefyd yn werthfawr i ddarparu tystiolaeth i staff wrth adnewyddu'r stoc, gan gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau drwy ddarparu ystadegau hawdd eu defnyddio a chynhwysfawr ar gyfer teitlau unigol ac ystodau penodol y casgliad. Yn ogystal, gwelwyd bod y gallu i feincnodi casgliadau yn erbyn llyfrgelloedd eraill Cymru yn rhywbeth a allai fod o fudd yn y dyfodol yn dilyn cydweithio, yn yr un modd â'r potensial ar gyfer gwella gwerth am arian drwy gaffael adnoddau'n ddoethach gan ddefnyddio data yn well ac yn fwy ystyrlon ac ymarferoldeb treialon Alma.

Gwelwyd y potensial i welliannau o ran casglu a dadansoddi data fod yn werthfawr ar gyfer symud o'r ddwy lyfrgell bresennol i gampws SA1 newydd y Brifysgol yn Abertawe yn 2017/18.

Atodiad

Darperir rhagor o wybodaeth gefndirol am y Drindod Dewi Sant a'r astudiaeth achos yma, gan gynnwys:

- Cyflwyno'r prosiect
- Sefyllfa wrthffeithiol, sy'n disgrifio'r hyn y byddai'r Brifysgol wedi ei wneud pe na bai wedi mynd ar drywydd ymagwedd consortiwm fel rhan o WHELP
- Methodoleg ar gyfer yr astudiaeth achos

Cyflwyno'r prosiect

Fel sefydliad cymharol fach wedi ei wasgaru ar draws ardal ddaearyddol eang, denwyd y Drindod Dewi Sant at fodel caffael consortiwm, a oedd yn rhoi cyfle i gydweithio â llyfrgelloedd addysg uwch eraill yng Nghymru. Teimlwyd bod yr ymagwedd consortiwm yn arbennig o werthfawr o ran galluogi'r Brifysgol i elwa ar ragor o arbenigedd mewn llyfrgelloedd sefydliadol eraill, mwy o faint, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac o ran arbed amser ac ymdrech yn ystod y broses gaffael drwy gydweithio ar fanyleb dendro ac ymarfer gwerthuso.

Yn ogystal, teimlwyd y byddai'r cysylltiadau a oedd yn barod yn rhai agos ymysg partneriaid WHELP yn galluogi'r Drindod Dewi Sant i elwa ar gydweithio yn y dyfodol yn dilyn y broses weithredu drwy rannu arbenigedd, a chaniatáu ar gyfer prosiectau ar y cyd yn y dyfodol i ddarparu rhagor o fynediad at adnoddau llyfrgelloedd.

Cyflawnwyd y cynllun gweithredu mewn tri cham. Cafodd y Drindod Dewi Sant ei chynnwys yn yr ail garfan a dechreuodd ar y gwaith mudo gydag Ex Libris ym mis Awst 2015.

Oherwydd cymhlethdod y mudo, gyda systemau lluosog a etifeddwyd yn ymfudo i un gronfa yn Alma, cynhwyswyd amserlen hirach ac ail brawf llwyth data ychwanegol yn y cynllun prosiect.

Aeth y Drindod Dewi Sant yn fyw gyda Alma, gyda disgwyl i Primo fynd yn fyw ar 1 Mawrth 2016.

Ffurfiwyd grŵp prosiect i oruchwylio'r gwaith o weithredu sy'n cynnwys uwch aelodau o staff llyfrgelloedd ac adnoddau dysgu ynghyd â chymorth technegol gan adran systemau a thechnoleg gwybodaeth y brifysgol, ac ymgynghorydd allanol arferai gael eu cyflogi fel rheolwr systemau ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe i ymdrin â symud data Capita Alto.

Yn dilyn cychwyn y prosiect, cynhaliwyd grwpiau anffurfiol llai o faint ymhlith staff y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu i adolygu ymarferion hyfforddi o fewn meysydd swyddogaethol penodol a datblygu gwybodaeth fanwl am y systemau newydd cyn eu lansiad.

Bu'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu hefyd yn cydweithio ag adran Profiad Myfyrwyr y Brifysgol i farchnata'r newidiadau i'r gymuned academiaidd a sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gwybod y diweddaraf er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth yn ystod cyfnod y mudo. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried amserlen y prosiect i gwblhau'r mudo yn ystod y tymor yn hytrach nag yn ystod

gwyliau.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi cael arweiniad gan Reolwr Rhaglen WHELP, sy'n gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd wedi darparu trosolwg strategol o'r prosiect, ac sydd wedi cyfrannu at gyfarfodydd gyda'r grŵp prosiect system rheoli llyfrgell WHELP ehangach i rannu adborth ar brofiadau ar draws y consortiwm cyfan.

Y sefyllfa wrthffeithiol

Gan fod y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i brosiect system rheoli llyfrgell ar y cyd WHELP cyn yr uno yn 2013, ac wedi cymryd rhan yn y trafodaethau ymlaen llaw cyn y prosiect mor bell yn ôl ag uno Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan yn 2010/11, mae'n anodd rhagweld senario wrthffeithiol yn fanwl gywir.

Fodd bynnag, mae'n amlwg na fyddai wedi bod yn hyfyw i'r Brifysgol barhau i gynnal sawl system a etifeddwyd am gyfnod amhenodol, ac mae'n debygol y byddai un system rheoli llyfrgell a darganfod atebion wedi cael ei mabwysiadu yn dilyn uno Prifysgol Fetropolitan Abertawe â'r Drindod Dewi Sant yn 2013/14. Gan fod y Brifysgol wedi dewis symud i Horizon, un o'i dwy system bresennol, yn dilyn uno Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, mae'n debygol y byddai penderfyniad tebyg wedi cael ei wneud yn dilyn uno'r Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn hytrach nag chynnal ymarfer caffael llawn ar gyfer cynnyrch newydd.

O ystyried nad yw Horizon yn cael ei datblygu'n weithredol gan SirsiDynix mwyach, mae'n rhesymol tybio y byddai Capita Alto wedi cael ei ddewis fel yr ateb a ffafir, ac mae hyn yn ffurfio sail y senario wrthffeithiol at ddibenion gwerthuso buddion, gan gynnwys yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Cambridge Econometrics.

Methodoleg astudiaeth achos

Casglwyd adborth ansoddol drwy dri grŵp ffocws gyda staff y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu ar brif gampysau'r Brifysgol: Abertawe, Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr ar gyfer y grwpiau ffocws i gynrychioli amrywiaeth o rolau o fewn y gwasanaeth; Cynorthwywyd Llyfrgell sydd â chyfrifoldeb sylfaenol dros wasanaethu cwsmeriaid llyfrgell gydag ymholiadau o ddydd i ddydd, Staff Caffaeliadau, Llyfrgellwyr Casgliadau sy'n gyfrifol am gatalogio a metadata, a Llyfrgellwyr Pwnc sydd â chyfrifoldeb dros ymgysylltu academaidd.

I adeiladu ar yr adborth o'r grwpiau ffocws hyn, yn dilyn hynny cynhaliwyd pedwerydd grŵp ffocws ychwanegol gyda Phennaeth Gweithredol y gwasanaeth ac uwch staff Llyfrgelloedd ac Adnoddau Dysgu.

Y bwriad gwreiddiol oedd arolygu sylfaen defnyddwyr y Llyfrgell fel rhan o'r astudiaeth hon, ond nid oedd hynny'n bosibl, fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amser. Yn ogystal, fel yr amlygwyd gan staff yn ystod y grwpiau ffocws, teimlwyd nad oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr wedi sylwi ar lawer iawn o newid yn y misoedd yn dilyn gweithredu; y prif nod oedd sicrhau 'busnes fel arfer' ar lefel sefydliadol ac i'r gwasanaeth barhau i redeg yn esmwyth cyn cyflwyno gwasanaethau newydd ar y cyd â phartneriaid WHELP drwy brosiectau yn y dyfodol. Gan hynny, teimlwyd y byddai astudiaeth ychwanegol i ganolbwyntio ar fuddion i ddefnyddwyr terfynol yn fwy gwerthfawr yn y tymor hwy wrth i wasanaethau ychwanegol fod ar gael. Mae'r sylw ar gasglu adborth gan staff y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn adlewyrchu'r ymagwedd a gymerwyd gan Brifysgol Caerdydd.

